



gwerth mewn gwahaniaeth  
delivering on distinction

## Cylchlythyr – Gorffennaf 2022

***Croeso i newyddlen Morlais sy'n dod â'r newyddion diweddaraf i chi am y prosiect.***

*Cynllun ynni llanw Menter Môn yw Morlais, sydd â'r nod o sicrhau budd i gymunedau lleol, yr economi a'r amgylchedd.*

Am ragor o wybodaeth am Morlais cysylltwch â ni ar [info@morlaisenergy.com](mailto:info@morlaisenergy.com).

### **Prentisiaid cyntaf yn ymuno â Morlais**

Tri mis i mewn i'r gwaith adeiladu ac mae Morlais eisoes yn croesawu prentisiaid newydd i'r safle.

Gyda phob un o'r wyth prentis o ogledd Cymru, mae Menter Môn yn benderfynol o gyflawni ei addewid i gadw budd Morlais yn lleol. Ar ôl cael caniatâd Lywodraeth Cymru yn ddiweddar mae gwaith ar Morlais eisoes wedi dechrau ar y tir, a chwmni Jones Bros yn brif bartner adeiladu.

Mae'r newyddion bod Morlais yn darparu swyddi lleol a chyfleoedd i bobl ifanc wedi'i groesawu ac mae'n un o'r rhesymau roedd Menter Môn yn awyddus i ymgymryd â'r prosiect. Gyda galw mawr am sgiliau, bydd y prentisiaethau yn helpu i hyfforddi a datblygu talent lleol a rhoi'r bobl ifanc yma ar y trywydd iawn i ddatblygu eu gyrfaedd ym maes adeiladu a pheirianeg.

Yn ogystal â chyflogi prentisiaid, mae cyfran uchel o'r rhai sy'n gweithio ar Morlais yn dod o ogledd Cymru. Mae Jones Brothers yn monitro o ble mae eu gweithlu yn dod ac mae 78% o'r bobl sydd wedi eu cyflogi ar Morlais yn dod o Wynedd a Môn a'r mwyafrif llethol sy'n weddill o siroedd eraill y gogledd.

### **Grŵp Cyswllt Cymunedol**

Cafodd cyfarfod cyntaf y Grŵp Cyswllt Cymunedol ei gynnal ym mis Mai yng Nghanolfan Ucheldre, Caergybi. Clive McGregor oedd cadeirydd y cyfarfod a daeth nifer dda o grwpiau a chynrychiolwyr lleol i'r sesiwn. Ymhlith y pynciau dan sylw oedd swyddi a chyfleoedd cadwyn gyflenwi. Pwrpas hwn y grŵp yw rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf gyda'r gymuned a busnesau lleol yn ogystal â chynrychiolwyr a rhanddeiliaid. Mae disgwyl i'r cyfarfod nesaf cael ei gynnal ddiwedd yr haf neu ddechrau'r hydref.

## Cadarn Consulting Engineers

Mae cwmni lleol arall wedi'i benodi'n bartner yn y broses o adeiladu Morlais. Mae Cadarn yn gwmni o Langefni wedi ei sefydlu gan Ifan Rowlands a Caryl Rowlands yn 2013. Maen nhw'n ymgynghoriaeth peirianeg annibynnol ac yn gweithio gyda Jones Bros a Morlais ac yn darparu arbenigedd strwythurol a seilwaith yn ystod y cyfnod cynnar hwn o'r gwaith datblygu a chreu ffosydd. Cadarn sy'n gyfrifol am gymryd trosolwg o'r gwaith sy'n cynnwys y gwaith adeiladu, y berthynas gyda rhanddeiliaid ac yn adrodd ar faterion iechyd a diogelwch.

### Diweddariad Adeiladu

Mae'r gwaith adeiladu yn mynd yn dda gyda'r broses o agor ffosydd ar gyfer ceblau rhwng Caergybi a Ffordd Ynys Lawd ar y gweill ar hyn o bryd. Ar adeg cyhoeddi'r newyddlen roedd gwaith drilio HDD o flaen yr amserlen. Wrth i'r gwaith yma fynd rhagddo, mae'n anochel y bydd rhywfaint o darfu ar draffig lleol. Byddwn bob amser yn ceisio sicrhau cyn lleied â phosibl o darfu a byddwn yn cytuno ar waith ymlaen llaw gyda Chyngor Sir Ynys Môn. I gael y wybodaeth ddiweddaraf am adeiladu a rheoli traffig, ewch i wefan Morlais [www.morlaisenergy.com](http://www.morlaisenergy.com).

Mae Jones Bros wedi penodi Bryn Williams yn Swyddog Cyswllt Cymunedol - mae wrth law i ateb ymholiadau lleol a chwestiynau am y gwaith. Mae'n bosib cysylltu gydag o ar [bryn@jones-bros.com](mailto:bryn@jones-bros.com).

### Ymweliadau Ysgol

Aeth dau o gydweithwyr Morlais, sef Hannah Thomas ac Sammy Jacques i ymweld ag Ysgol Parc y Bont, Llanddaniel Fab yn ddiweddar i siarad â disgyblion am ynni adnewyddadwy. Mae'r disgyblion yn edrych ar newid hinsawdd fel rhan o brosiect gwyddoniaeth ar ddiwedd eu blwyddyn ysgol ac yn awyddus i glywed mwy am ynni llif llanw a sut y bydd Morlais yn cynhyrchu trydan. Aeth Hannah a Sammy a model o dyrbin efo nhw i ddangos sut y bydd yn gweithio yn y dŵr ac i helpu disgyblion gael gwell dealltwriaeth o ynni morol ac ynni llanw.

### Ymweliadau safle

Mae Morlais wedi croesawu gwleidyddion dros y misoedd diwethaf, gyda Rhun ap Iorwerth AS a Virginia Crosbie AS yn dod ar ymweliadau safle i Gaergybi ac i weld llwybr y ceblau. Ymunodd, Greg Hands MP, Gweinidog Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol â Virginia Crosbie ar ei hymweliad hi. Daeth Lee Waters AS, y Dirprwy Weinidog dros Newid Hinsawdd i Ynys Môn hefyd a chafodd gyfle i wrdd â thîm Morlais ac i gael diweddariad ar y prosiect.

### Nova a Sabella yn cwblhau arolygon lleol

Yn dilyn y cyhoeddiad bod Nova a Sabella wedi sicrhau angorfeydd 12MW gyda Morlais, daeth y cwmnïau ynghyd i gynnal arolwg Proffil Cerrynt Doppler Acwstig (ADCP) i asesu'r adnodd llanw potensial y safle. Gan fod y llanw yn unigryw ym mhob ardal, cafodd yr arolwg ei wneud gan ddefnyddio arbenigedd a dealltwriaeth leol ynghyd â chontractwyr cychod o Ynys Môn.

### Tîm Morlais yn tyfu

Unwaith eto yn y cylchlythyr hwn rydym yn falch o rannu bod tîm ynni Menter Môn yn tyfu.

Mae Guto-Wyn Hughes wedi ymuno â ni fel rheolwr swyddfa a bydd yn gyfrifol am redeg swyddfa Ynni Menter Môn o ddydd i ddydd gan sicrhau llif o wybodaeth rhwng y prosiect, arianwyr a rhanddeiliaid.

Mae Clare Llywelyn a Helen Roberts yn ymuno i weithio ar Brosiect Ymchwil i Nodweddion Morol wedi ei ariannu gan ERDF. Bydd y prosiect yn datblygu ac yn dangos y dechnoleg monitro a lliniaru sydd ar gael i gefnogi'r defnydd o dyrbinau yn nyfroedd Cymru. Bydd y data sy'n cael ei gasglu ar gael i brosiectau morol eraill yng Nghymru i'w cefnogi gyda'u prosesau caniatâd.

Mae Ian Newton yn ymuno â'r tîm fel Swyddog Prosiect Selkie. Mae Selkie yn brosiect ynni morol sy'n dod ag ymchwilwyr a busnesau blaenllaw ynghyd i wella perfformiad technolegau ynni tonnau a llanw yng Nghymru ac Iwerddon. Mae Selkie wedi ei ariannu gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) drwy raglen Cydweithredu Iwerddon Cymru.

Mae Menter Môn hefyd yn y broses o recriwtio Rheolwr Prosiect i gefnogi datblygiadau adnewyddadwy eraill gan gynnwys Hwb Hydrogen Caergybi.